
PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 159 | Rhif 16 | Ebrill 16, 2026 | 50c.

## Y cadoediad, y cyfundeb a llythyr y llysgennad



WARREN A. STEPHENS
AMBASSADOR OF THE UNITED STATES OF AMERICA
TO THE COURT OF ST. JAMES'S

March 26, 2026

The Reverend Gareth Ioan
Croesheddig Newydd
Pentre'r Bryn
Llandysul, Ceredigion
SA44 6NB

Dear Reverend Ioan,

Thank you for your letter of March 16. I certainly respect your point of view, but Iran has demonstrated it has absolutely no interest in international law. Throughout this regime's reign, they have constantly brutalized their own people and armed proxies to do their bidding.

They have repeatedly threatened to wipe Israel off the face of the earth. If they develop a nuclear weapon, I have no doubt they will do that, as well as further threaten and blackmail their neighbors. This regime must not be allowed to have weapons of mass destruction.

Thank you again for your letter. I am sure we both hope for a quick end to this conflict.

Sincerely,

Warren A. Stephens

Warren A. Stephens

Ar fore gwlyb a gwyntog o fis Mawrth mewn cwrdd chwarter ym mhentre' Tre-lech yng nghefn gwlad Sir Gâr, prin y gallem fod ymhellach o'r dinistr a'r lladd yn Iran a gwledydd eraill y Dwyrain Canol. Hawdd fyddai i ni fel Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin wneud datganiad yn condemnio'r rhyfel, a'i gadael hi fanna. Ond fel meddai fy hen gyfaill, y diweddar Gwynn Bowyer, rhaid cyfeirio datganiad at rywun penodol. Felly, cytunwyd anfon llythyr at lysgennad yr Unol Daleithiau ym Mhrydain, yn enw'r Parchg Gareth Ioan, gan nodi ei fod yn Gadeirydd Cyfundeb o 2,000 o Gristnogion, yn galw am gadoediad fel y cam cyntaf tuag at yr heddwch parhaol (gweler *Y Tyst* 26 Mawrth 2026). Ac yn wir, wythnos yn ôl, fe wireddwyd y cam cyntaf yna, wrth i America ac Iran gytuno i bythefnos o gadoediad, a hynny er mwyn rhoi cyfle i drafod amodau heddwch hirdymor. Ond mae'n gadoediad bregus iawn, ac ansicrwydd am ailagor culfor Hormuz. Byddai disgwyl i hynny arwain at ostwng pris olew a thanwydd arall, sef elfen arall oedd wedi achosi pryder i ni yn ein cwrdd chwarter yng Nghapel y Graig, Tre-lech.

### Sylwadau'r llysgennad

Ychydig cyn y cadoediad, fe ddaeth llythyr o ymateb i alwad y cyfundeb, wedi ei arwyddo gan y llysgennad Warren Stephens ei hun. Doedd hi ddim yn syndod ei fod yn cyfiawnhau'r ymosodiad ar Iran, gan ddadlau na ddylid caniatáu i'r wlad honno ddatblygu arfau niwclear a fyddai'n eu galluogi hwy i ddinistrio Israel yn llwyr, yn ogystal â bygwth gwledydd cyfagos eraill. Ond o leiaf fe wnaeth y llysgennad rannu ein hawydd i weld y gwrthdaro yn gorffen yn fuan. Ac fe oedd y llythyr yn un cwrtais a oedd yn parchu safbwynt y cyfundeb, yn wahanol iawn i rwygo a rhegi bygythiol ei fos, yr Arlywydd Trump.

### Hanfodol codi llais

'Er nad oedd sylwadau'r llysgennad yn annisgwyl,' meddai'r Parchg Gareth Ioan, 'mae'n hanfodol ein bod ni fel Cristnogion yn codi ein llais am y rhyfel anghyfreithlon yma, gan bwyso am heddwch a chyfiawnder ar y lefel uchaf bosibl. Rydym yn llawenhau bod rhan bwysig o'r hyn roeddem wedi galw amdano wedi digwydd – sef cadoediad yn y gwrthdaro dinistriol. Rhaid sicrhau mai'r cam cyntaf fydd hyn tuag at gymod a sefydlogrwydd hirdymor yn y Dwyrain Canol. Byddwn yn parhau i bwyso a gweddïo am hynny.' Y bygythiad mwyaf i'r cadoediad yw ymddygiad Israel. Rhaid bod Benjamin Netanyahu, wnaeth ddechrau'r rhyfel presennol trwy'r ymosodiad wnaeth ladd yr Ayatollah, yn gandryll bod Donald Trump wedi ymatal rhag dinistrio Iran yn llwyr. Fe wnaeth Israel anwybyddu'r cadoediad ar y diwrnod cyntaf trwy'r ymosodiad mwyaf ffyrnig ar Beirut. Erbyn i chi ddarllen hyn, mae'n bosib y bydd pethau wedi newid eto.

### Llunio galwad effeithiol

Ond i ddod nôl at y llythyru rhyngom ni a'r llysgennad. O'n profiad ni fel cyfundeb mewn sawl ymgyrch lwyddiannus dros y blynyddoedd, y ffordd fwyaf effeithiol o wneud galwad

*parhad ar dudalen 2*

## Ebeneser Caerdydd yn dathlu'r 200

Testun llawenydd oedd cael cynnal oedfa ddathlu 200 ar bnawn Sul 1 Mawrth. Bu'r pwyllgor dathlu yn ddiwyd yn trefnu yn y cefndir ac mae'n diolch iddynt hwy am lwyddiant y prynhawn hyfryd a gafwyd. Gwahoddwyd hen ffrindiau i ymuno gyda ni, ac roedd yr ymateb yn wych a chapel y Methodistiaid yn llawn ar gyfer yr achlysur. Wrth i'r gynulleidfa gyrraedd dangoswyd lluniau o'r gorffennol ar y sgrin o ddyddiau Lewis Powell hyd y presennol.

### Canu yn yr hen ddull

Llywyddwyd yr oedfa gan y gweinidog a chyfeiliwyd ar yr organ gan Helen Thomas. Agorwyd y gwasanaeth mewn ffordd anarferol trwy i Alun ledio emyn Morgan Llwyd, 'Yr ydym yma yn dy ŵydd ....' yn yr hen ddull a ddefnyddid 200

*mwy ar dudalen 2*



*Huw Jenkins, Geraint Tudur ac Alun Tudur yn torri'r gacen a bobwyd gan Gill Lewis*

# Ebeneser Caerdydd yn dathlu'r 200 – parhad

mlynedd yn ôl. Bryd hynny roedd yr arweinydd yn canu cwpled a'r gynulleidfa yn ei ailadrodd.

### Dathlu'r cychwyn

Darllenwyd o 1 Samuel (Beibl William Morgan) pennod 7, lle y cyfeirir at hanes yr Ebeneser cyntaf ac yna darllenwyd cywydd gan Dr Eirian Dafydd gan Bethan Hayes. Cyflwynodd Mair Robins waith celf tecstiliau 'Llusernau' a oedd wedi ei greu ganddi hi a Sandra Semmens mewn cydweithrediad â'r plant er mwyn dathlu'r 200. Adroddwyd hanes y cychwyn gan Gwilym Dafydd, Mair Robins, Catrin Jên, a Lis Decaro.

### Dathlu'r hanes

Darllenodd Rhodri Lewis o Hebreaid 12 (BCN) sy'n sôn am y cwmwl tystion o gredinwyr a aeth o'n blaenau. A dyna hanes eglwys Ebeneser. Dros gyfnod o 200 mlynedd y mae miloedd o bobl wedi bod yn rhan o fywyd yr eglwys, pobl enwog a dinod, ond pawb ohonynt yn rhan o gorff Crist. Cymerwyd rhan yn yr adran hon gan Gwenda Lewis, Petra Bennett, Janet Jones ac Ifan Roberts. Offrymwyd gweddi rymus gan y cyn-weinidog y Parchg Ddr Geraint Tudur yn diolch am a fu ac yn gofyn am fendith i'r dyfodol. Cyflwynwyd cyfarchion cynnes i Ebeneser gan y Parchg Owain Llŷr Evans, Llywydd Undeb yr Annibynwyr.

### Dathlu'r presennol a'r dyfodol

Agorwyd y rhan olaf o'r oedfa gan Esyllt Jones yn darllen hanes Iesu yn cerdded ar y dŵr o efengyl Mathew 14:22–32. (beibl.net) Rhan o'r ysgrythur gafodd ddylanwad dwfn arnom yng nghyfnod gwerthu'r capel ar Heol Siarl. Yna yn drawiadol darllenodd Carys gerdd a gyfansoddwyd gan ei thaid Gilbert Ruddock yn cymharu pont y Borth, sydd hefyd yn 200 oed, gydag Ebeneser. Cyflwynodd Gwilym Jeffs, Angor, neges



*Megan Williams 96 oed a Caleb sy'n dri mis*

bwrpasol yn pwysleisio fod popeth yn newid o'n cwmpas ond fod Iesu Grist ein Gwaredwr yn ddigyfnewid, 'yr un ddoe heddiw ac yn dragywydd.' Oherwydd hynny gallwn ymddiried ynddo gan seilio ein hiachawdwriaeth, ein presennol a'n dyfodol arno.

### Cacen y dathlu a diolch

Yn dilyn yr oedfa daeth torf niferus i'r neuaddau lle'r oedd y byrddau wedi eu harlwyo gyda chacennau danteithiol a phaneidiau uwchraddol. Yn goron ar y lluniaeth roedd Gill Lewis wedi pobi cacen odidog yn siâp y rhif 200. Diolch iddi hi am gydlynu'r lluniaeth mor effeithiol. Yn y neuadd roedd Gwenda Lewis wedi casglu creiriau difyr i'w harddangos, yn luniau, rhaglenni a hen rifynnau o'r *Llusern*.

Hoffem ddiolch i bawb ohonoch a wnaeth y dathliad yn ddiwrnod llawen a chofiadwy. Ond mae'n diolch pennaf i'r Arglwydd am ein nerth i dystio i'r newyddion da yn Iesu am ddwy ganrif. 'Hyd yma y cynorthwyodd yr Arglwydd ni.' Mae'n bosib gwylio recordiad o'r oedfa trwy fynd i gyfrif YouTube Ebeneser.

## Y cadoediad, y cyfundeb a llythyr y llysgennad – parhad

yw ei anelu at glust y person neu'r mudiad mwyaf dylanwadol bosib. Os mai llais bychan yw un y cyfundeb, o leiaf fe gafodd ei glywed yn yr achos yma, a hynny gan y person sy'n cynrychioli'r Unol Daleithiau yn y berthynas rhwng y wlad honno a llywodraeth Prydain ar adeg o densiwn gwleidyddol sylweddol rhwng y ddwy wlad. Mae Warren Stephens yn aelod selog o'r Eglwys Esgobol – enwad sy'n rhan o'r gymuned Anglicanaidd, yn hytrach nac un o'r enwadau Cristnogol ceidwadol sy'n ystyried y gwrthdaro yn y Dwyrain Canol fel rhyfel sanctaidd. Mae'n debyg mai allan o barch at gyd-Gristnogion yr aeth y llysgennad i'r drafferth o ateb ein llythyr. Mae parchu safbwyntiau eraill yn rhan allweddol o'r broses o fagu cymod rhwng unigolion, crefyddau a gwledydd y byd.

**Alun Lenny**

### Caniadaeth y Cysegr

Cyflwynwyd Caniadaeth y Cysegr ar BBC Radio Cymru ar 8 Mawrth gan aelodau Ebeneser sef, Gwenda Lewis, Eynon Williams, Gill Lewis, Gwilym Jeffs, Esyllt Jones ac Alun Tudur. Roedd gan yr holl emynau a ddewiswyd gysylltiad gydag Ebeneser. Diolch yn fawr iawn i Helen Thomas am gydlynu hyn ar ein rhan. Gellir gwrando ar y rhaglen trwy fynd i: www.bbc.co.uk/sounds/play/m002sm4j





Yr Adran Gydenwadol

16 Ebrill 2026
Rhifyn 268

I ddarllen y cyhoeddiad digidol *Cenn@d* yn llawn cliciwch isod:
www.cennad.cymru

# Cymorth Cristnogol yng Nghymru yn edrych ymlaen at Wythnos Cymorth Cristnogol ym mis Mai

Aeth dros wythnos heibio ers cyfarfodydd 'Y Cwrdd | The Gathering' yn ne a gogledd Cymru, a waw! – am wythnos anhygoel a gafwyd yng nghwmni pawb.

Roedden ni wrth ein bodd yn cael croesawu Jane Wathome, Cyfarwyddwr Beacon of Hope, a Janet Ngombalu o Christian Aid Kenya i Gymru i fod yn rhan o'r cyflwyniadau.



*Jane a Janet gydag aelodau o Bwyllgor Cenedlaethol Cymru, Esgob Mary Stallard ac Andrew Sully*

Dechreuodd eu hymweliad gyda chroeso cynnes a Chymreig yn Eglwys Gadeiriol Llandaf, a chyfarfod y Deon Jason Bray, y Canon Ganghellor Kate Harrison, cynrychiolwyr o Bwyllgor Cymorth Cristnogol Llandaf, ac aelodau o Bwyllgor Cenedlaethol Cymru, Esgob Mary Stallard ac Andrew Sully.

Cafwyd yr un croeso arbennig ym Mhenarth a Wrecsam yn ein cyfarfodydd cefnogwyr cyntaf – Y Cwrdd | The Gathering.

Rhannodd Jane a Janet straeon ysbrydoledig o ddeunyddiau Wythnos Cymorth Cristnogol eleni, gan dod â'r stori'n fyw a dangos sut mae gobaith yn goresgyn heriau yn Nairobi wrth i'n partner Beacon of Hope weithio ochr yn ochr â chymunedau yn Dagoretti.

Rhannwyd diweddariadau hefyd ar yr Ymgyrch Adfer, sy'n galw ar lywodraethau'r Deyrnas Unedig a Chymru i weithredu ar gyfiawnder dyled. Clywodd cefnogwyr sut mae dysgwyr ifanc ledled Cymru yn codi eu lleisiau proffwydol drwy'r cynllun Creadigol dros Gyfiawnder Hinsawdd a Chymdogion Byd-eang. Roeddem hefyd yn ddiolchgar i Katie



*Janet gyda chefnogwyr o'r gogledd yn Wrecsam*

Roxburgh am rannu gwybodaeth am y cyd-destun presennol yn y Dwyrain Canol.

Diolch enfawr i bawb a ymunodd â ni. Dyma rai o'ch sylwadau:

- "Diolch, thank you, am Y Cwrdd yn Wrecsam heddiw. Mwynheais yn fawr iawn."
- "Roeddwn i'n meddwl bod y digwyddiad yn rhagorol: ysbrydoledig, addysgiadol ac o gyflymder perffaith."
- "Mwynheais y trafodaethau ym Mhenarth yn fawr iawn ... mae Jane a Janet wir yn 'Beacons of Hope'."




*Gweithwyr Cymorth Cristnogol yng Nghymru, Rebecca, Llinos, Mari a Jane gyda Janet a Jane o Nairobi, Kenya*

*Llinos Roberts, Trefnydd Gogledd Cymru*

*Cyhoeddir Cenn@d ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg*

# Glywsoch chi sŵn y 'Diwygiad Tawel'?

Cyhoeddwyd adroddiad 'The Quiet Revival' gan Gymdeithas y Beibl ym mis Ebrill 2025, yn dilyn gwaith ymchwil a wnaed gan YouGov yng Nghymru a Lloegr, gyda thua 13,000 o bobl yn cael eu holi. Fodd bynnag, bu'n rhaid tynnu'r adroddiad hwn yn ôl yn ddiweddar, wedi iddi ddod i'r amlwg nad oedd y data a ddefnyddiwyd yn ddilys nac yn ddibynadwy. Rhaid pwysleisio nad oedd unrhyw fai ar Gymdeithas y Beibl am hyn, gan iddynt dderbyn sicrwydd gan YouGov fod y data'n gywir. Yn yr adroddiad a gyhoeddwyd ganddynt, roeddent wedi honni bod canran y boblogaeth sy'n mynychu eglwys wedi cynyddu o 8% o'r boblogaeth yn 2018 i 12% yn 2024, a bod y twf mwyaf sylweddol wedi bod ymhlith pobl ifanc, sef cynnydd o 4% yn 2018 i 16% yn 2024.


Gyda siom y derbyniwyd y newyddion, er efallai nad oedd yn syndod i rai, a oedd wedi cwestiynu dilysrwydd yr arolwg ar y pryd. Roedd ffynonellau eraill, fel y British Social Attitudes Survey, yn dangos canlyniadau gwahanol, gan gyhoeddi bod y nifer sy'n mynychu'r eglwys yn parhau i ostwng, a bod cynnydd mewn ambell achos wedi ei liwio gan nifer y mewnfudwyr a cheiswyr lloches, gyda nifer yn ffoi o wledydd Catholig a Phentecostaidd.

### Ymateb Cymdeithas y Beibl

Mewn ymateb, dywedodd Siân Wyn Rees, pennaeth Cymdeithas y Beibl yng Nghymru, 'Er y siom, dydy hyn ddim yn dileu be mae'r Arglwydd wedi bod yn ei wneud yng Nghymru dros y cyfnod diwethaf. Roedden ni'n gweld twf yn yr eglwys, a phobl yn bod yn fwy agored ymhell cyn i adroddiad y Diwygiad Tawel gael ei gyhoeddi. Dyw e ddim yn anecdotal – mae'n ategu'r hyn rydyn ni'n ei weld. Mae pobl yn fwy agored i ffydd ar hyn o bryd ac yn holi cwestiynau, ac mae hynny'n beth braf.'

### Data ein henwadau Cymreig

O edrych ar ddata'r ddau enwad sy'n rhan o gyhoeddi *Cenn@d*, mae'r ystadegau'n dal i ddangos dirywiad blynyddol. Yn 2019 roedd gan Undeb Bedyddwyr Cymru 9,052 o aelodau, ond erbyn 2024 roedd y ffigwr hwn wedi gostwng i 6,647, gostyngiad o 27%. Yn yr un modd roedd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru 17,493 o aelodau yn 2019, ond unwaith eto roedd hynny wedi gostwng i 11,521 erbyn 2025, sef gostyngiad o 33%. Yn ddiweddar cyhoeddwyd adroddiad helaeth a sylweddol gan y British Social Attitudes Research, ac mae'r Pew Research Centre UK wedi mynd ati i ddehongli'r data hwn, gan ddangos canlyniadau digon tebyg i ddata ein henwadau ni.







### Y gwir ddarlun?

Mae'n debyg fod y gwirionedd rywle yn y canol – heb os, mae 'na storïau o adfywiad, o dwf ac o genadaethau sy'n llwyddo ar hyd a lled ein gwlad. Mae ein henwadau hefyd yn addasu, gan ddatblygu rhaglenni mentrus a chenhadol a buddsoddi'n drwm mewn plannu eglwysi a sefydlu mentrau newydd. Ond yr un pryd, mae 'na gapeli ac eglwysi yn cau, mae cynulleidfaoedd yn edwino, a ffydd i'w gweld yn hollol amherthnasol i lawer erbyn hyn.

### Arwyddion gobeithiol

Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad hwn flwyddyn yn ôl, cafwyd llawer o storïau lleol o Gymru, yn rhannu hanesion cyffrous yn sôn am fwrlwm a chynnwrf mewn eglwysi lleol, a nifer o eglwysi newydd hefyd wedi'u plannu. Mae llawer yn honni bod hyn yn dangos bod pobl ifanc yn arbennig yn chwilio am gymuned ysbrydol mewn ffordd fwy gweithredol nag o'r blaen. Diolch am bob un hanes am bobl yn ailgysylltu neu'n troi mewn am y tro cyntaf i brofi bywyd ffydd.


Yr her i ni yw ystyried beth yw ein rôl ni yn hyn i gyd. Pa gamau ydyn ni'n fodlon eu cymryd fel eglwysi er mwyn gofalu bod ein haddoliad yn fyw ac yn berthnasol, bod ein croeso yn gynnes a diffuant, a bod 'na awydd ynom i weld a phrofi'r diwygiad tawel hwn yn ein cynulleidfaoedd? Gweddïwn am weld Duw yn cyffwrdd bywydau pobl eto yn y blynyddoedd nesaf hyn, ac wedi i YouGov ailgynnal yr arolwg, y cawn adroddiad newydd a fydd yn sôn am dwf a chynnydd.

*Aled Davies*



# Codi'r Llen: merched yr Hen Destament a'u dewisiadau

## Maes Llafur i oedolion 2025/26




### Codi'r Llen 18

## Ymson Michal

Ro'n i wedi cwympo dros fy mhen a'm clustiau mewn cariad â Dafydd. Rhyfeddais at ei harddwch a'i ddewrder, a chlywais ef yn siarad gyda sicrwydd am Dduw. Hoffais hynny a llenwodd fy nghalon â chynhesrwydd. Ond parodd ei fawredd i fy nhad, Saul, deimlo'n fychan. Pan ddeallodd fy mod yn caru Dafydd, aeth yn wyllt. Gwenodd, gan esbonio y byddai'n caniatáu'r uniad am y byddai hynny'n fodd o dwyllo Dafydd. Fe gawn ei briodi pe byddai Dafydd yn llwyddo i ladd cant o Philistiaid! Roedd yn loes calon imi fod fy nhad yn gallu fy nefnyddio fel hyn. Ofnwn i'r byw hefyd y byddai Dafydd yn cael ei ladd.

Er mawr ryddhad, dychwelodd Dafydd o'r frwydr â dau gant o flaengrwyn fel prawf o'i lwyddiant. Felly rhoddwyd fi iddo. Am sbel, ro'n i'n hapus. Credwn y byddai serch yn fy nghario ar ei adenydd. Meddyliwn y byddai cenfigen fy nhad yn cilio. Ro'n i'n ifanc a heb ddeall eto ffyrdd dynion.

Yna, un noson, clywais filwyr yn sibrwd tu allan i furiau ein cartref a sylweddolais eu bod am ladd Dafydd pan ddôi'r bore. A'r foment honno, yn y gwely, dewisais amddiffyn fy ngŵr. Cynllwyniais ffordd iddo ddianc, a chyn iddi wawrio lluchiais raff allan drwy'r ffenest. Cusanodd Dafydd fi cyn iddo'i ostwng ei hun i lawr y rhaff yn araf ac yn dawel. Daliais ynddi mor dynn nes bod cledrau fy llaw yn gwaedu; dyna faint ro'n i'n ei garu. Yna, wedi iddo ddianc, gosodais y gwely i edrych fel petai Dafydd yn dal yno. Yn sydyn, rhuthrodd y milwyr i mewn, a dywedais wrthyn nhw nad oedd Dafydd yn teimlo'n dda a'i fod yn cysgu. Roedden nhw'n dwp ac fe gredon nhw'r stori. Ond doedd fy nhad ddim yn wirion, a gorchmynnodd i'r milwyr ddychwelyd a chario Dafydd yn ogystal â'r gwely ato! Ond roedd Dafydd wedi hen fynd erbyn hynny a'm gadael yno ar fy mhen fy hun.

Doedd dim allwn i ei wneud ond dweud celwydd wrth fy nhad a chyfaddef fod Dafydd wedi fy mygwth. Gwyddwn, wrth gwrs, nad oedd hyn yn iawn, ond beth arall allwn i ei wneud? Roedd serch yn dal i f'arwain, ond ro'n i wedi colli'r person ro'n i'n ei garu. Dyna fy nhristwch.

Yna, rhoddwyd fi i ddyn arall. Cefais fy rhoi … fel pe bawn yn declyn neu'n ddarn o offer, rhywbeth i'w feddiannu!

Aeth y blynyddoedd heibio, a bob hyn a hyn byddwn yn clywed am ryw ferch neu'i gilydd a gafodd ei dewis fel gwraig newydd i Dafydd. Roedd nifer o ferched yn gariadon iddo hefyd ac fe gafodd blant dirifedi. Cododd i fod yn arwr, yn frenin, yn ddyn grymus. Ac yna fe gefais sioc, oherwydd ces gais i ddychwelyd ato. Doedd o ddim wedi fy anghofio ac roedd rhyw gysur yn hynny. Ond eto i gyd, ro'n i'n wraig i Paltiel ac yntau'n meddwl y byd ohonof. Roedd ein bywyd yn llyfn ac yn hawdd.

Er mor gymysglyd fy meddwl, fe es i. Dilynodd Paltiel y tu ôl imi, yn crio. Welodd neb fy nagrau i. Teimlais fy mod yn diflannu. Gwyddwn y byddwn i, ryw ddiwrnod, yn gorfod edrych i lawr o ffenest wahanol a gweld Dafydd yn dinoethi ac yn dawnsio o flaen merched eraill. Y diwrnod hwnnw byddai fy nghalon yn oeri a byddwn yn sylweddoli, er gwaethaf fy ngwaed brenhinol, na chefais f'amddiffyn rhag gwawyffon serch.

**Holi**

- Defnyddiwyd Michal fel arf gan ei thad. Oes yna bobl heddiw sy'n cael eu defnyddio – yn emosiynol, yn broffesiynol, yn gymdeithasol, yn wleidyddol, yn grefyddol hyd yn oed – er mantais i rywun arall?

- Roedd Michal yn meddu ar ddewrder, er na chafodd hynny ei gydnabod ar y pryd. Ydyn ni'n rhoi digon o glod i weithredwyr dewr ein hoes?

- Labelwyd Michal fel merch a gwraig. Sut mae labeli (disgwyliadau teuluol a/neu briodasol, ymrwymiadau gyrfaol, diffiniadau cymdeithasol a/neu eglwysig etc) yn siapio ac yn effeithio ar ein hunaniaeth ni heddiw?

- Flynyddoedd wedi iddi achub Dafydd, amlygwyd chwerwder Michal am yr hyn na fu. A yw poen yn tueddu i ailgodi i'r wyneb neu a oes modd iacháu briwiau sydd heb eu datrys? Pa ymarferion sy'n ein galluogi ni i osgoi briwiau a chwerwder?

**Gweddi**

Dduw, os bydd chwerwder,
gofynnwn am ryddhad.
Os bydd cydymffurfio niweidiol,
gofynnwn am ddewrder.
Os bydd anghyfforddusrwydd,
gofynnwn am gynhaliaeth.
Os bydd ansicrwydd,
gofynnwn am ddoethineb.
Os bydd drysau wedi cau,
gofynnwn am eu datgloi.
Os bydd cynnen, gofynnwn am gymod.
Os bydd casineb, gofynnwn am gariad.
Amen.

*Sian Meinir*

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 19 Ebrill, am 7:30yb a 4:30yp**
Sian Meinir, Penarth, yn dathlu 250 o flynyddoedd ers geni Ann Griffiths

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 19 Ebrill, am 12.00yp**
Oedfa Radio Cymru – oedfa o dan arweiniad Andras Iago, Dinbych

*S4C Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 19 Ebrill** – dim rhaglen

# Urddo diaconiaid yn y Tabernacl, Pencader



Mewn oedfa arbennig ar fore Sul 8 Mawrth, braf oedd dilyn ôl troed ein hynafiaid dros drothwy'r capel mewn undod, llawenydd a gwerthfawrogiad a hynny er mwyn urddo'r diaconiaid y'u galwyd i wasanaethu, sef Marc Jones, Tom Lewis, Ann Phillips a Siân Thomas. Boed nerth i'r pedwar i wneud eu rhan drwy gyfoethogi bywyd ysbrydol a bod yn llusern yn yr oes hon.

Calon yr Eglwys yw'r aelodau, y rhai sy'n cynorthwyo yng ngwaith yr Arglwydd gan sicrhau bod drws ein cartref ysbrydol yn parhau ar agor. Mae cyfieithiad John Morris Jones o emyn Frances R Havergal yn crynhoi naws a neges yr oedfa:

Cymer fy serchiadau, Iôr,
wrth dy draed 'rwy'n bwrw eu stôr;
cymer, Arglwydd, cymer fi
byth, yn unig, oll i ti.

### Cydgerdded ar y daith

Wrth gydio yn y dyletswydd arbennig hwn, fe'n gwahoddir i estyn llaw o gefnogaeth i'r pedwar a sicrhau ein bod yn cydgerdded gyda hwy ar y daith. Fe'n hatgoffir o'r gwasanaethu ffyddlon a'r ffaith taw llaw Duw sy'n llywio'r cyfan. Fel y dywedodd Charles Spurgeon: 'Diaconiaid yw dwylo a thraed yr Eglwys – gadewch i ni gyfleu a lledaenu cariad Crist gyda'n gilydd.'

Gwasanaethwyd gan ein gweinidog, y Parchg Chris Bolton gyda Mrs Fioled Jones wrth yr organ a diolch i'r ddau am gyfrannu at naws yr oedfa. I ddiweddu'r cyfarfod, cafodd pawb gyfle i gymdeithasu a dathlu llawenydd y bore dros baned a chacen yn y festri cyn teithio am adref.

# Cynrychiolwyr o eglwysi Ewrop yn ymweld â Chymru

Braint fawr i nifer ohonom dros benwythnos Sul y Blodau oedd cael croesawu Pwyllgor Llywio Rhanbarth Ewrop o Gymundeb Eglwysi Diwygiedig y Byd (WCRC) i Gymru. Prif nod yr ymweliad oedd cryfhau cysylltiadau â'r tri enwad ac undeb o Gymru sy'n aelodau o'r Cymundeb: Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a Synod Cenedlaethol Cymru yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig. Roedd cynrychiolwyr y Pwyllgor Llywio wedi teithio o Rwmania, Sweden, y Swistir, yr Almaen a gogledd-ddwyrain Lloegr a dros dridiau o drafod cafwyd cyfle i arddangos undod, archwilio'r cyd-destun eglwysig a gwleidyddol, a chael blas ar ddiwylliant, iaith, chwaraeon a bwyd Cymru.



### Cyflwyniad arbennig

Cynhaliwyd y prif gyfarfod fore Gwener yn swyddfa Synod Cymru yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig. Ynghyd â chyfraniadau gan aelodau'r Cymundeb yng Nghymru cafwyd cyflwyniad arbennig iawn gan Cynan Llwyd, Ysgrifennydd Cytûn, yn rhoi trosolwg o gyd-destun yr eglwysi yng Nghymru ac ar ddatblygiad eciwmeniaeth yng Nghymru (sbardunodd hwn gryn ddiddordeb a thrafodaeth ymysg y Pwyllgor Llywio). Ychwanegwyd at hyn gan Iestyn Davies o Cytûn, a Peredur Owen Griffiths AS, wrth iddynt ystyried agweddau gwleidyddol a chymdeithasol, gan gynnwys perthynas Cymru ag Ewrop mewn cyd-destun ôl-Brexit.



Ar y dydd Sadwrn, cafodd y Pwyllgor Llywio gyfle i ymweld ag Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, cyn ein bod yn rhannu pryd gyda'n gilydd ym Mae Caerdydd gyda'r nos. Ddydd Sul, mynychodd aelodau'r Pwyllgor wasanaethau addoli mewn eglwysi lleol.

*parhad ar dudalen 7*

# Barn Annibynnol

## ‘Pleidleisiwch dros Grist!’

**Mair:** Sut hwyl, Dafydd? Wyt ti’n barod am yr etholiad ar y seithfed o Fai?

**Dafydd:** Sa i’n gwbod. Wi wedi cael llond bola ar y pleidiau gwleidyddol i gyd! Addo’r byd a chyflawni dim.




**Mair:** Mae hynna braidd yn eithafol, tydi? Mae’r Senedd wedi pasio nifer o ddeddfa’ i wella’n bywyd ni.

**Dafydd:** Wel, wi’n ffaelu’n deg â gweld fawr o newid o nghwmpas i. Wyt ti’n gwbod beth sy eisie? Plaid Gristnogol. Wedyn gallen ni gael gwlad, a byd, sy’n byw yn ôl rheolau crefydd. Byddwn i’n pleidleisio drostyn nhw.

**Mair:** Mi oeddwn i’n meddwl bod yna blaid Gristnogol yn bod ym Mhrydain yn barod. Ai rhyw weinidog o’r enw George Hargreaves wnaeth ei sefydlu hi?

**Dafydd**: Ie, yn 2004, ac maen nhw wedi sefyll mewn sawl etholiad. Fel arfer maen nhw’n cael llai na 0.4% o’r bleidlais, heblaw yn Ynysoedd y Gorllewin yn yr Alban.

**Mair**: Ddim yn debyg o ffurfio llywodraeth yn y dyfodol agos, ’ta. Ond mi fasat ti’n rhoi pleidlais iddyn nhw, debyg?

**Dafydd**: Wel, sa i’n siŵr. Maen nhw’n geidwadol iawn. Yn erbyn priodas rhwng pobol o’r un rhyw, yn erbyn erthylu, eisie cau popeth ar y Sul. Byddwn i’n hoffi gweld plaid Gristnogol lai cul na hynny, theocratiaeth ryddfrydol. Ond gwlad â’r gyfraith yr un peth â dysgeidiaeth y Beibl.

**Mair:** Hm. Felly, os ydi dyn yn cael perthynas efo gwraig dyn arall, mi fasat ti’n rhoi’r ddau i farwolaeth? Ac yn dienyddio hogyn sy’n anufudd i’w rieni?

**Dafydd:** Beth! Arswyd y byd, na fyddwn!

**Mair**: Ond dyna mae’r Beibl yn ddeud, llyfr Deuteronomium. Mae’r Beibl yn rhestru mwy na 25 o drosedda’ lle mae angen dienyddio’r pechadur. Dyna fasa cyfraith dy theocratiaeth di, ia?

**Dafydd:** Jiawch erioed, na! O’r gore, gwell i mi aralleirio. Dylen ni seilio cyfraith y wlad ar ddysgeidiaeth y Testament Newydd, geirie Iesu. Rhannu’r bara a’r pysgod rhwng pawb, caru ein cymydog fel ni ein hunain. A gwneud deddfe sy’n sicrhau’r pethe yna.

**Mair**: Basa llawer un yn deud amen i hynna. Ond pwy sydd i ddeud pwy ydi ein cymydog? O’r gora’, dwi’n gyfarwydd â’r ddameg! Ond beth tasa dy lywodraeth newydd yn mynnu mai dim ond pobol yr un fath â nhw ydi’n cymydog, pobol wyn, neu gredinwyr ffwndamentalaidd? Beth fasan nhw’n neud efo pobol o ffydd wahanol, y Mwslimiaid, a’r bobol Hindŵ yn y Gymru Gristnogol? Fasa ’na le iddyn nhw?

**Dafydd:** Bydde, wrth gwrs, ond ... hei, mae hyn yn mynd yn gymhleth! Mae’n rhaid bod rhyw ffordd i adeiladu gwlad Gristnogol ond goddefgar. Wedi’r cwbwl, mae sawl theocratiaeth i’w cael mewn crefydde erill, on’d oes? Rhai Mwslimaidd fel ... Iran, Affganistan, Mauritania.

**Mair:** Wel, dyna chdi dair gwlad ddemocrataidd a rhyddfrydig, ’ta?! A dyna hanfod y broblem yn fy marn i. Mi fasa gwlad theocrataidd yn sicr o droi’n unbenaethol, yn ormesol, ddim yn godde unrhyw wahaniaeth barn. Darllena *The Handmaid’s Tale* gan Margaret Atwood. A phwynt arall – pa fath o Gristnogaeth fasa’n sylfaen i dy wlad Gristnogol?

**Dafydd**: Yn ’y marn i, Cristnogaeth yw Cristnogaeth. Gair Iesu.

**Mair:** ’Swn i’n deud fel arall, bod ’na Gristnogaeth a Christnogaeth. Mae arweinwyr America’n galw’u hunain yn lywodraeth Gristnogol, mae’u gweinidogion Cristnogol yn gosod ’u dwylo ar Donald Trump bob blwyddyn i fendithio’r cr’adur. Glywest ti Pete Hegseth, yr ysgrifennydd rhyfel, yn gweddïo’n gyhoeddus yn y Pentagon yn ddiweddar?

**Dafydd:** Do, myn brain! Yn gweddïo ar i Dduw sicrhau bod ‘pob bwled yn taro’r marc’ ac yn hybu ‘trais llethol yn erbyn y rhai sy ddim yn haeddu trugaredd.’ Rhyfedd, wi’n ffaelu cofio Iesu’n gweddïo yn y ffordd yna.

**Mair:** A dyna’r perig wrth ffurfio unrhyw lywodraeth grefyddol, mi all fod yn fath o grefydd sy’n atgas gynnon ni. Na, ymhob gwlad ddemocrataidd mae’n bwysig cael gwrthblaid gref sy’n dal y llywodraeth i gyfri. A dyna waith Cristnogion, ’swn i’n deud. Bod yn wrthblaid barhaus, herio ein harweinwyr a’n llywodraethwyr, ’u galw nôl bob amser at ’u coed, at yr egwyddorion Cristnogol sy mor bwysig i ni: hyrwyddo heddwch, cefnogi’r tlawd, gofalu am y rhai gwan a sâl.

**Dafydd:** Erbyn meddwl, rwyt ti yn llygad dy le. Bydd rhaid i mi chwilio am blaid arall i’w chefnogi ar Fai y seithfed. O leia bydd digon o ddewis y tro yma!

**Robat Powell**

(Nid yw’r hyn a ysgrifennir yn yr erthyglau Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr nac ychwaith y tîm golygyddol.)

## Cynrychiolwyr o eglwysi Ewrop yn ymweld â Chymru – *parhad*

### Ymweliad gwerthfawr

Heb amheuaeth sicrhaodd yr ymweliad hwn gyfle gwerthfawr ar gyfer dysgu ar y cyd, deialog a chymdeithasu o fewn teulu ehangach y Cymundeb. Dyma ddywedodd Jenny Dobers, Llywydd Rhanbarth Ewrop o’r Cymundeb wrth adael: ‘Rydym yn gadael gyda’n calonnau yn llawn o gynhesrwydd pobl Cymru, gofal aelodau eich eglwysi, harddwch natur a diwylliant Cymru, a chyfoeth o ddoethineb ac ysbrydoliaeth ar sut i fyw’r Efengyl yn ein hoes ni. Rydym yn diolch i Dduw ein bod mewn cymundeb â chi. Mae’n gysur gwybod, hyd yn oed ar draws y pellter, y gallwn weddïo gyda’n gilydd dros fyd sydd mor daer angen heddwch.’



**Hefin Jones**

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Dathlu'r Pasg yng Nghaerfyrddin a Bancyfelin

Wedi oedfa undebol fendithiol iawn fore Gwener y Groglith yn y Tabernacl, Caerfyrddin dan arweiniad y Parchg Peter Thomas, Aberystwyth, cafwyd cyfle i ymuno mewn gorymdaith trwy'r dref a drefnwyd gan weinidogion lleol, o Eglwys Crist i Eglwys San Pedr gan oedi bob hyn a hyn i ganu emyn neu offrymu gweddi.

### Codi croes ar ben y bryn

Er gwaetha'r tywydd garw yn y prynhawn, ymlwybrodd criw da o ffyddloniaid dewr ar y bererindod flynyddol i gopa Bryn Myrddin, yr hen fryngaer sydd ar gyrion tref Caerfyrddin. Cariwyd croes a oedd yn ffocws yr addoliad awyr agored ar ben y bryn am dri o'r gloch y prynhawn. Roedd pawb yn falch o fwynhau paned a chacen ar fferm Alltyfyrddin ar ôl dod lawr o ben y bryn a chodwyd swm da o arian i elusen Alzheimer's.



*Oedfa ar ben Bryn Myrddin*

Roedd yr haul yn gwenu arnom ar fore Sul y Pasg a daeth cynulleidfa niferus o bob oed i'r oedfa gymun deuluol undebol yng nghapel y Priordy. Yn y prynhawn, roedd pentref Bancyfelin yn fawr ei groeso i aelodau o eglwysi'r ofalaeth gyda'r capel wedi ei addurno'n hyfryd ar gyfer yr ŵyl. Cafwyd cyfle i orymdeithio drwy'r pentref gan oedi i ganu emynau gydag oedfa i ddilyn yng nghapel Bancyfelin. Diweddwyd y penwythnos gyda phaned a byns y grog – heb anghofio'r wyau Pasg a ddosbarthwyd yn hael gan ein gweinidog yn ystod y dydd!



*Gorymdeithio tu ôl i'r groes trwy bentref Bancyfelin*

Roedd oedfaon penwythnos y Pasg o dan arweiniad gweinidog yr ofalaeth, y Parchg Beti Wyn James gyda chymorth nifer o aelodau eraill o bob oed o eglwysi Bancyfelin, Cana, Elim, Heol Awst a'r Priordy, Caerfyrddin, a chafwyd ymddangosiad arbennig gan Islwyn yr asyn yn yr oedfa deulu! Gwerthfawrogwyd cerddi Eurig Salisbury (un o blant capel Bancyfelin) a baratowyd ar ffilm gan Undeb yr Annibynwyr. Bu cryn werthfawrogiad ohonynt yn oedfaon yr ŵyl.

### Rhannu'r neges yn ddigidol

Cyhoeddwyd oedfa ddigidol bob dydd Sul yn ôl yr arfer ynghyd ag oedfa Gwener y Groglith dros sianel YouTube yr ofalaeth. Paratowyd hefyd gyfres ddigidol newydd *Dwy funud gyda Duw* gan ein gweinidog gyda chymorth nifer o ddarlleniadau gan oedolion ifanc yr ofalaeth a ddarlledwyd bob dydd Mercher yn ystod tymor y Grawys. Bu'r gyfres yn rhedeg bob dydd yn ystod wythnos y Pasg gyda digwyddiadau'r wythnos fawr wedi'u recordio gan Tudur Dylan Jones, aelod o gapel y Priordy. Diolch am benwythnos o fyfyrio a dathlu.

# Oedfa Gŵyl Ddewi yn Nhal-y-bont

Cynhaliwyd gwasanaeth arbennig ym Methel, Tal-y-bont, Ceredigion ar 1 Mawrth, a braf oedd gweld cymaint yn bresennol. Dewi Sant oedd testun Dr Geraint Evans a arweiniodd ran gynta'r oedfa. Roedd hefyd wedi paratoi cwis amserol ar gyfer y plant oedd yn bresennol.

Cafwyd cyfle, yn ail ran yr oedfa, i dalu diolch a dangos ein gwerthfawrogiad i Mair Nutting am ei gwaith a'i harweiniad yn yr ysgol Sul am dros 25 mlynedd. Cafwyd eitemau gan blant yr ysgol Sul a gyflwynodd dusw mawr o flodau iddi. Darllenwyd nifer o gyfarchion hefyd oddi wrth gyn-aelodau'r ysgol Sul. Yna, darllenodd Phil Davies englyn arbennig a gyfansoddwyd i Mair gan y prifardd Gwenallt Llwyd Ifan, cyn ei gyflwyno iddi.

Ynghanol ein hysgol ni – ar y Sul,
erys hon a'i hegni.
Mor annwyl yw Mair inni;
ym Methel, angel yw hi.

Wedi i'r oedfa ddirwyn i ben mwynhawyd paned, cacen gri a sgwrs cyn troi am adre.

PROSIECT DENMAN 2026
Ein hysgol Sul: **'Newid ein byd er gwell'**
Ewch ati i greu podlediad / hysbyseb / fideo (hyd at 5 munud o hyd) neu waith celf ar y thema 'Newid ein byd er gwell'
Erbyn dydd Iau
4 Mehefin 2026
E-bostiwch:
rhodri@annibynwyr.cymru
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Glanyrafon, Abertawe SA7 0AJ
MANYLION:
01792 795888
annibynwyr.cymru



